

## O Ymateb i Adfer:

Ein dull o roi sicrwydd yn ystod y  
cam adfer



## O Ymateb i Adfer Ein dull o roi sicrwydd yn ystod y cam adfer

### Y cam ymateb

Ar 16 Mawrth, gwnaeth Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) atal arolygiadau arferol dros dro er mwyn lleihau'r risgiau o ledaenu COVID-19. Nodwyd ein dull yn ein dogfen 'Rhoi sicrwydd ynglŷn ag ansawdd a diogelwch gwasanaethau yn ystod pandemig COVID-19' (<https://arolygiaethgofal.cymru/200513-sut-rydym-yn-sicrhau-ansawdd-diogelwch-gwasanaethau-yn-ystod-pandemig-covid-19>).

Yn ystod y cam hwn, parhaodd ein swyddogaethau pryderon a phwynt cyswllt cyntaf yn gwbl weithredol. Roedd ein gweithgarwch yn cynnwys y canlynol:

- cefnogi darparwyr drwy eu ffonio i gael sgwrs yn rheolaidd
- monitro pryderon a hysbysiadau yn agos (gan gynnwys achosion o COVID-19 a marwolaethau mewn cartrefi gofal)
- dadansoddi a rhannu data a gwybodaeth er mwyn cefnogi ymatebion i'r pandemig
- darparu sianel gyfathrebu i'r sectorau gofal plant a gofal cymdeithasol, gan gynnwys datblygu ardal benodol ar ein gwefan ar gyfer COVID-19 gyda chwestiynau cyffredin ac adnoddau defnyddiol

Gwnaeth y wybodaeth a gawsom yn ystod ein sgwrsiau dros y ffôn gyda'r gwasanaethau ein galluogi i fod yn eiriolwyr ar ran y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'r staff sy'n gweithio ynddynt. Gwnaethom nodi materion allweddol a'u trafod ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i lywio a llunio ymatebion i'r pandemig.

Yn ystod y cam ymateb hwn, gwnaeth ein cydberthynas â darparwyr newid i fod yn un fwy cefnogol, ac nid ydym am gollu'r gydberthynas hon. Fel rheoleiddiwr ac arolygiaeth, mae'n bwysig y gallwn roi sicrwydd i'r cyhoedd a sicrhau gwelliant. Felly, rydym am adeiladu ar y cydberthnasau hyn er mwyn ein galluogi i wneud hyn yn ystod y cam nesaf, sef adfer yn dilyn effeithiau pandemig COVID-19.

### Adfer

O 31 Gorffennaf, byddwn yn symud ymlaen i'n cam adfer. Mae'n anodd gwybod pa mor hir yn union y bydd y cam hwn yn para, a byddwn yn ei adolygu'n wythnosol. Fodd bynnag, rhagwelwn y gallwn fod yn gweithredu yn y ffyrdd a nodir yma tan yr hydref.

Rhoddir y dull adfer hwn ar waith yn nghyd-destun trosglwyddiad parhaus COVID-19 yn y gymuned. Byddwn yn cymryd unrhyw gamau yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn helpu i leihau lledaeniad COVID-19. Wrth i nifer yr achosion o COVID-19 leihau, byddwn yn cynyddu ein gweithgarwch arolygu; os bydd ail don neu fannau problemus o ran yr haint, byddwn yn diwygio ein dull.

Mae'r cam adfer yn seiliedig ar yr egwyddorion allweddol canlynol:

- **Rhoi pobl yn gyntaf:** mae llais a llesiant pobl yn parhau i fod wrth wraidd ein gwaith, a ategir gan ddull seiliedig ar hawliau. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant, pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau rheoleiddiedig, a'n staff.
- **Dull ymatebol a seiliedig ar risg:** byddwn yn gweithio mewn ffordd amserol a chymesur sy'n seiliedig ar risg. Byddwn yn monitro gwasanaethau ac awdurdodau lleol, yn ymateb i bryderon, ac yn cymryd camau i leihau'r risgiau i ddiogelwch a llesiant pobl, ac yn sicrhau gwelliannau.
- **Dull seiliedig ar dystiolaeth:** caiff ein gwaith ei lywio gan ddata a gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth gan:
  - y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau
  - y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau
  - y bobl sy'n comisiynu'r gwasanaethau
  - y bobl sy'n gweithio mewn rhwydweithiau gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol ehangach
- **Cydweithio:** byddwn yn parhau i wrando, rhannu gwybodaeth, a chydweithio ym mhob rhan o'r sectorau gofal plant a gofal cymdeithasol ac â Llywodraeth Cymru er mwyn ysgogi gwelliant.
- **Myfyrio a dysgu:** byddwn yn dysgu o ddulliau newydd er mwyn llywio ein cam nesaf (adnewyddu) ac yn parhau i gael budd o'r ffyrdd newydd o weithio.

Yn ein cam adfer, byddwn yn addasu'r ffordd rydym yn gweithio yn unol â'n hegwyddorion. Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal plant a gofal cymdeithasol. Byddwn yn gweithio o bell cymaint â phosibl, gan wneud defnydd effeithiol o'r dechnoleg sydd ar gael i ni a'r darparwyr. Lle y caiff risgiau eu nodi, gallwn sicrhau y byddwn yn ymateb, yn gwranddo, ac yn casglu adborth o amrywiaeth eang o ffynonellau am ansawdd y gofal a'r cymorth a roddir i bobl. Byddwn yn defnyddio'r cam adfer i brofi ffyrdd newydd o weithio a dysgu ohonynt er mwyn llywio'r ffordd y byddwn yn gweithredu yn y dyfodol.

## Rhoi ein hegwyddorion ar waith

Bydd Cyswllt AGC, sef ein gwasanaeth pwynt cyswllt cyntaf, yn parhau i fod yn gwbl weithredol, a bydd adborth a phryderon yn parhau i ddod i law.

Rydym yn cydnabod bod y gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant wedi bod dan bwysau sylweddol yn ystod y pedwar mis diwethaf, ac nid ydym am ychwanegu at hyn yn ddiangen gyda baich rheoleiddiol ar hyn o bryd. Er na fyddwn yn dychwelyd i'n rhaglen arolygu lawn yn ystod y cyfnod adfer, byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar fonitro er mwyn cael sicrwydd pellach ynghylch ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Byddwn yn defnyddio dull seiliedig ar risg, ac yn ymateb i'r holl bryderon a ddaw i law. Byddwn yn cynnal arolygiadau lle bo hyn yn angenrheidiol ac ar ôl ceisio defnyddio dulliau eraill o gael sicrwydd a thystiolaeth.

Lle byddwn o'r farn bod lefel risg ddifrifol mewn awdurdod lleol, byddwn yn cynyddu ein gweithgarwch adolygu perfformiad a, lle bod angen, gall hyn gynnwys arolygu.

Byddwn yn parhau i gynnal trafodaethau ynglŷn â diogelu gydag awdurdodau lleol a phartneriaid mewn ffordd rithwir yn ôl yr angen.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda chomisiynwyr awdurdodau lleol a byrddau iechyd, ac arweinwyr gofal plant, er mwyn rhannu gwybodaeth am wasanaethau i lywio ein gwaith o wneud penderfyniadau yn seiliedig ar risg.

Yn ystod y cam adfer hwn, byddwn hefyd yn gofyn am adborth gan bobl am eu profiad o wasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant drwy ymgyrchoedd wedi'u targedu yn y cyfryngau cymdeithasol.

## **Cofrestru**

Byddwn yn parhau i flaenoriaethu ceisiadau newydd ac amrywiadau i fanylion cofrestru er mwyn helpu i greu capasiti ychwanegol ym maes gofal cymdeithasol oedolion a phlant a darpariaeth gofal plant. Cysylltu ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd a darparwyr er mwyn parhau i oruchwylio gwasanaethau sy'n darparu 'capasiti ymchwydd' mewn ymateb i COVID-19.

Rydym wedi addasu ein prosesau cofrestru er mwyn sicrhau y gallwn barhau â'n gwaith mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Dim ond lle y bo'n ddiogel y byddwn yn diwygio'r rhain, a byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd na fydd yn effeithio ar allu'r ymgeiswyr i fwrw ymlaen â'u ceisiadau.

## **Monitro**

Mae ein hamserlen adolygu perfformiad ac arolygu arferol yn golygu y bydd amllder ein gweithgarwch yn amrywio rhwng gwasanaethau rheoleiddiedig ac awdurdodau lleol. Yn ystod y cam adfer hwn, byddwn yn monitro gwasanaethau ac awdurdodau lleol drwy wneud y canlynol:

- ystyried adborth, gwybodaeth, hysbysiadau a phryderon
- casglu adborth gan bobl
- gweithio'n agos gyda chomisiynwyr awdurdodau lleol a byrddau iechyd
- cysylltu'n uniongyrchol â chynifer o wasanaethau a phosibl yn rheolaidd. Diben craidd y galwadau hyn yw cael sicrwydd gan ddarparwyr bod y gwasanaeth yn hybu diogelwch a llesiant y bobl ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau

Bydd pa mor aml a'r ffordd y byddwn yn gwneud hyn yn amrywio ar gyfer gwahanol fathau o wasanaethau.

Dros y misoedd nesaf, byddwn yn cynyddu ein gweithgarwch ymgysylltu er mwyn casglu adborth o amrywiaeth eang o ffynonellau.

Lle y bydd ein gwaith monitro yn nodi risgiau posibl i lesiant pobl, byddwn yn ceisio sicrwydd pellach. Gall hyn gynnwys:

- cysylltu â'r gwasanaeth/awdurdod lleol yn amlach
- ceisiadau am wybodaeth benodol
- taith rithwir o'r safle (lle y bo'n briodol)
- cyfweliadau rhithwir â'r staff
- cysylltu â theuluoedd/rhieni

- cynnal trafodaethau â'r cyrff comisiynu
- adborth gan weithwyr proffesiynol sydd wedi bod mewn cysylltiad â'r gwasanaeth yn ddiweddar
- cyfarfod â'r unigolyn cyfrifol
- adolygiadau sicrwydd manwl gydag awdurdodau lleol
- cyfarfod â chyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol a rhanddeiliaid perthnasol eraill
- gweithgarwch adolygu perfformiad mewn awdurdodau lleol a all arwain at weithgarwch arolygu

Gall y wybodaeth a gesglir arwain at arolygiad.

Byddwn yn achub ar y cyfle yn ystod y cam adfer hwn i ddatblygu a phrofi dulliau o nodi arwyddion cynnar o bryder mewn gwasanaethau.

## Arolygu

O dan rai amgylchiadau, gallwn gasglu'r dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer arolygiad heb ymweld â safle'r gwasanaeth. Lle y byddwn wedi gallu siarad â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth heb ymweld â'r safle, caiff adroddiad arolygu ei gyhoeddi yn unol â'n prosesau arferol.

Byddwn yn arolygu gwasanaethau rheoleiddiedig lle bo un neu fwy o'r canlynol yn berthnasol:

- mae gweithgarwch sicrwydd oddi ar y safle wedi codi pryderon difrifol am achosion gwirioneddol neu bosibl o niwed, cam-drin neu dorri hawliau dynol, ac nid yw'r darparwr wedi gallu dangos digon o dystiolaeth sy'n ein galluogi i benderfynu bod y bobl yn ddiogel
- rydym wedi cael gwybodaeth sydd wedi codi pryderon, a dim ond drwy ymweld â'r safle y gallwn ystyried y pryderon yn llawn
- mae'n rhaid i ni ymweld â'r safle er mwyn gallu penderfynu a ddylid cymryd camau gorfodi neu roi'r gorau i gymryd camau gorfodi
- mae'r gwasanaeth eisoes ar y llwybr sicrhau gwelliant a gorfodi, ac mae hysbysiadau diffyg cydymffurfio wedi cael eu cyflwyno iddynt neu mae camau gorfodi yn mynd rhagddynt

Gall hyn fod yn arolygiad rhithwir a/neu ar y safle, wedi'i deilwra i'r amgylchiadau ym mhob achos. Arolygiadau â phwyslais penodol fydd y rhan fwyaf ohonynt er mwyn treulio cyn lleied o amser â phosibl ar y safle. Byddwn bob amser yn ystyried y thema 'llesiant' o'n methodoleg. Bydd arolygiadau â phwyslais penodol yn arwain at adroddiad a gaiff ei gyhoeddi. Caiff asesiadau risg a chynlluniau rheoli risg eu defnyddio er mwyn sicrhau diogelwch y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, y staff, a'r arolygwyr.

Lle bo angen cynnal ymweliadau arolygu, byddwn yn sicrhau y caiff ein staff eu diogelu ac na fyddant yn peri risg o drosglwyddo haint. Caiff hyn ei gyflawni drwy wneud y canlynol:

- rhoi hyfforddiant i'r holl staff arolygu ar feysydd allweddol mewn perthynas â'r pandemig, gan gynnwys rheoli heintiau a'u hatal

- bydd yr holl staff sy'n bresennol yn cwblhau holiadur a datganiad mewn perthynas â'u hiechyd a'u statws ynysu. Bydd hyn er mwyn sicrhau na fydd staff sy'n hunanyysu neu sy'n dangos symptomau yn bresennol mewn amgylcheddau gofal iechyd
- caiff cyfarpar diogelu personol (PPE) sy'n cydymffurfio â'r safonau a nodir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ei darparu i'n harolygwyr sy'n cynnal yr ymweliad. Byddant hefyd yn cael hyfforddiant ar sut i wisgo a thynnu'r cyfarpar hwn

Yn ystod y cyfnod adfer hwn, efallai y byddwn hefyd yn treialu arolygiadau rhithwir fel rhan o weithgarwch sicrwydd arferol.

Bydd pob arolygiad yn arwain at adroddiad a gaiff ei gyhoeddi.

Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos ag arolygiaethau eraill er mwyn ystyried yr opsiynau ar gyfer gwaith ar y cyd ac er mwyn lleihau achosion o ddyblygu.

### **Gorfodi**

Byddwn yn parhau i ymateb i wasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru ac ymchwilio iddynt. Lle na ellir osgoi ymweld â'r safle, byddwn yn sicrhau y caiff ein staff eu diogelu ac na fyddant yn peri risg o drosglwyddo haint. Byddwn yn gwneud hyn drwy gymryd y camau a nodir uchod.

Byddwn yn parhau â'r ymchwiliadau troseddol sydd eisoes ar waith, ac yn cychwyn gweithgarwch gorfodi arall fel sy'n ofynnol er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant pobl.

### **Gweithgarwch arall**

Byddwn yn parhau i gynnig llwybr cyfathrebu a diweddarau ein gwefan. Yn ystod yr haf, byddwn yn cychwyn ymgyrchoedd wedi'u targedu yn y cyfryngau cymdeithasol er mwyn casglu adborth gan bobl am wasanaethau.

Gan ddilyn ffyrdd newydd o weithio, byddwn yn gwerthuso'r rhain i lywio ein gwaith o gynllunio ar gyfer y cam adnewyddu.

Yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst, byddwn yn cyhoeddi'r holl adroddiadau arolygu y gwnaethom ohirio eu cyhoeddi ym mis Mawrth. Bydd hyn yn cynnwys llythyrau adolygu perfformiad blynyddol i awdurdodau lleol ac adroddiadau trosolwg cenedlaethol ar drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid, dementia ac oedolion hŷn.

Byddwn yn parhau i rannu data a gwybodaeth â Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill er mwyn llywio gwaith cynllunio mewn perthynas â COVID-19 ac, yn benodol, baratoadau ar gyfer ail don bosibl. Byddwn hefyd yn parhau i rannu materion a godir â ni gan ddarparwyr er mwyn sicrhau y cânt eu cefnogi i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da sy'n hybu canlyniadau cadarnhaol i bobl.